# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Mehefin 2017

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Jon Antoniazzi**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

09.15 - 09.30

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 31)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Steve Davies, Cyfarwyddwr - yr Is-Adran Addysg
Huw Morris, Cyfarwyddwr - yr Is-Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

## 3 Papurau i’w nodi

**Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - 1. Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 32 - 34)

**Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - 2. Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 35 - 36)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - 3. Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 37 - 38)

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Busnes - 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 39 - 40)

**Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 41 - 42)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Grŵp Arbenigol Iechyd Anghenion Dysgu Ychwanegol**

(Tudalennau 43 - 47)

**Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon - Fframwaith Diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru**

(Tudalen 48)

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau**

(Tudalennau 49 - 51)

**Llythyr at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Gwaith Ieuenctid**

(Tudalennau 52 - 54)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 22 Mehefin

(11.00)

## Egwyl

(11.00 - 11.15)

## 5 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(11.15 - 11.45) (Tudalennau 55 - 74)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

**Cyflwyniad**

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch gwelliannau addysgol, gan ganolbwyntio ar feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

**Cynllun Gwella Addysg Diwygiedig**

2. Byddwn yn cyhoeddi cynllun gwella addysg diwygiedig i olynu Cymwys am Oes ar yr amser mwyaf priodol i'r proffesiwn. Bydd yn cynnwys ymateb y Llywodraeth i Asesiad Cyflym o Bolisi y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), a'n cynllun i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol yn ganolog iddo.

**Y cynnydd yn erbyn y deg blaenoriaeth addysg**

3. Gan edrych ar bob blaenoriaeth yn ei thro, rwy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch pob un o'r deg blaenoriaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, yr wyf wedi cytuno arnynt â'r Prif Weinidog, ac sydd wedi'u cynnwys yn *Symud Cymru Ymlaen.*

*<u>Lleihau maint dosbarthiadau babanod.</u>*

4. Mae maint dosbarthiadau'n parhau i beri pryder mawr i rieni ac athrawon. Ar 24 Ionawr, cyhoeddais gronfa newydd gwerth £36 miliwn i fynd i'r afael â maint dosbarthiadau babanod. Nod y buddsoddiad hwn (cyfalaf a refeniw) sydd wedi'i gysylltu â'r strategaeth diwygio addysg ehangach, yw ceisio gwella cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar, targedu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig, a chefnogi athrawon i fod yn arloesol ac i wella ymgysylltiad disgyblion.

5. Bydd cyllid yn cael ei dargedu at ddosbarthiadau sydd â mwy na 29 o ddisgyblion. Mae gwaith ymchwil a thystiolaeth ryngwladol yn dangos inni bod lleihau maint dosbarthiadau yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r disgyblion ieuengaf ac yn enwedig y rhai o gefndiroedd tlotach a/neu'r rhai sy'n siarad iaith leiafrifol. Felly, mae'r meini prawf ar gyfer cyllid grant yn adlewyrchu'r arfer gorau hwn.

*<u>Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy Grant Amddifadedd Disgyblion ehangach (y Grant Datblygu Disgyblion bellach).</u>*

6. Bydd dros £90m yn cael ei fuddsoddi drwy'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2017-18 i helpu gwasanaethau addysg i gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer ein dysgwyr difreintiedig. Ym mis Mawrth, cyhoeddais drefniadau newydd

ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion estynedig sy'n cynnwys dyblu'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar ar gyfer dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen i £600. Mae'r grant hefyd wedi'i ymestyn i gefnogi plant tair oed sy'n derbyn gofal ar yr un raddfa â'r holl ddysgwyr eraill sy'n derbyn gofal ac i gyllido dysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Yn flaenorol, dim ond y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion sydd wedi cael y cyllid. Er mwyn cydnabod bod y grant yn cefnogi carfan ehangach o ddysgwyr i sicrhau cydraddoldeb, mae wedi'i ailenwi yn Grant Datblygu Disgyblion.

*Rhoi blaenoriaeth i ysgolion o ran cael mynediad at fand eang cyflym iawn yn y rhaglen genedlaethol.*

7. Cwblhawyd y broses o ddarparu cysylltedd gwell i ysgolion cymwys o dan y Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn ystod Haf 2016 a darparwyd diweddariadau band eang llwyddiannus i dros 960 o ysgolion yng Nghymru. Roedd angen atebion amgen ar gyfer y 33 o ysgolion a oedd yn weddill (fel cysylltiad ffeibr i'r cabinet, lloeren a diwifr), sydd bellach wedi'u darparu. Mae gan bob ysgol gymwys yng Nghymru bellach gysylltiadau ar gyflymder o 10Mbps o leiaf ar gyfer ysgolion cynradd ac 100Mbps ar gyfer ysgolion uwchradd.

8. Mae £5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu o dan y Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol - Buddsoddi mewn Band Eang a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu i gael gwared ar gyfyngiadau technolegol mewn 340 o ysgolion nad ydynt yn gallu cynyddu eu lled band i gefnogi gofynion yn y dyfodol fel y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a datblygiadau yn y platform Hwb.

9. Bu fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol a chyflenwr Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus i gadarnhau'r cwmpas a'r trefniadau masnachol. Mae ceisiadau am y gwasanaethau newydd wedi dechrau dod i law a disgwylir i'r cylchedau newydd cyntaf gael eu darparu'n gynnar yn y flwyddyn academaidd 2017/18.

*Annog, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysgu er mwyn codi safonau yn gyffredinol.*

10. Mae'r OECD wedi cydnabod ein dull o gyd-ddatblygu a nododd fod yr ymrwymiad i wella addysgu a dysgu yn ysgolion Cymru yn weledol ar bob lefel o'r system addysg.

11. O fis Medi 2019, byddwn yn cyflwyno system lle y bydd pob rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon yn cael ei hachredu gan Bwyllgor Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol (y Bwrdd) Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r meini prawf achredu newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn gwneud y gofynion yn glir ar gyfer rôl fwy i ysgolion, a rôl glir i brifysgolion; perchenogaeth ar y cyd o'r rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon; cyfleoedd wedi'u strwythuro i gysylltu dysgu mewn ysgolion a

phrifysgolion; a lle canolog i waith ymchwil. Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried sut y bydd y rhaglenni'n gwella ansawdd y ddarpariaeth e.e. denu'r bobl gywir gyda'r sgiliau a'r cymwysterau cywir a chyda dawn i addysgu, i'r proffesiwn.

12. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sy'n cynyddu capasiti o Addysg Gychwynnol i Athrawon ac sydd wedi'i wreiddio mewn ymchwil ar sail tystiolaeth yn y system lle mae ysgolion yn gwella eu hunain. Mae datblygu Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cael ei arwain gan gonsortia rhanbarthol, Estyn, arloeswyr ac ysgolion sy'n bartneriaid i sicrhau bod yr holl ymarferwyr, gan gynnwys staff cymorth, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac ymarferwyr Addysg Bellach yn gallu datblygu sgiliau addysgu ac arweinyddiaeth i ddiwallu gofynion y cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

13. Bydd cymorth dysgu proffesiynol digidol gwell ar gael eleni, a bydd Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol wedi'i integreiddio'n llawn yn cael ei roi ar waith erbyn mis Medi 2018. Mae'r dull dysgu proffesiynol digidol newydd wedi'i roi ar waith a'i brofi gan arloeswyr dysgu digidol a phroffesiynol i ddarparu continwwm er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn bwrw gwreiddiau.

14. Cymru yw un o'r pedair gwlad sy'n arwain ar ymchwil rhyngwladol o dan arweiniad yr OECD i droi ysgolion yn sefydliadau dysgu. Mae ysgolion arloesol yn arwain y prosiect arloesol hwn, gan weithio i ddatblygu Model Sefydliadau Dysgu Ysgolion a 'Wnaed yng Nghymru'. Bydd Arolwg y Sefydliadau Dysgu Ysgolion yn targedu sampl o 20% o ysgolion ledled Cymru yn cael ei lansio ym mis Mehefin 2017. Bydd y Sefydliad yn cynnal digwyddiad cenedlaethol ar gyfer ysgolion peilot ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio ar ganlyniadau cychwynnol yr astudiaeth y Sefydliadau Dysgu Ysgolion.

15. Daeth yr ymgynghoriad ynghylch y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth i ben ar 4 Mai. Roedd cefnogaeth gyffredinol i strwythur, cynnwys ac amserlen gweithredu'r safonau. Mae hyn yn gyson â'r adborth a gafwyd gan nifer o athrawon ac arweinwyr unigol sydd wedi croesawu'r safonau newydd, a wnaeth sylwadau cadarnhaol ynghylch sut y maent yn cefnogi ymarfer ac arweinyddiaeth effeithiol yn y dosbarth a sut y maent yn rhoi ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa. Bydd athrawon newydd gymhwyso yn gweithio gyda'r safonau newydd o fis Medi ymlaen. Bydd yn ofynnol i bob athro arall fabwysiadu'r safonau newydd erbyn mis Medi 2018, sy'n rhoi blwyddyn iddynt drosglwyddo o'r safonau presennol a bwriedir iddynt fod yn rhan annatod o'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y dyfarniad Statws Athro Cymwysedig.

16. Yng Nghymru, mae'r Rhaglen Athrawon Graddedig yn rhoi cyfle i athrawon a hyfforddwyd dramor nad oes ganddynt Statws Athro Cymwysedig, ond sy'n dymuno dod yn athrawon a gydnabyddir yn llawn yng Nghymru, i gael eu cyflogi mewn ysgolion er mwyn dyfnhau eu profiad a'u sgiliau addysgu presennol yn erbyn gofynion y Safonau Statws Athro

Cymwysedig yng Nghymru a chael eu hasesu yn erbyn y safonau hynny ar ddiwedd rhaglen y cytunwyd arni. Gall hyd y rhaglen hyfforddi fod mor fyr â thri mis llawn amser/un tymor ysgol ar gyfer athrawon profiadol â chymwysterau da, yn dibynnu ar eu profiad blaenorol.

17. Ar 16 Mai, rhoddais ddiweddariad ar yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn y Senedd. Bydd yn weithredol erbyn Gwanwyn 2018, ond bydd y gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym cyn hynny, er mwyn i'r Academi allu broceru a sicrhau ansawdd amrywiaeth o raglenni; gallu cael rôl o ran sicrhau darpariaeth ar draws rhanbarthau; a gallu gweithio gydag eraill i adnabod a chefnogi arweinwyr presennol ac arweinwyr yn y dyfodol.

.

*Hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i addysg bellach ac uwch a thrwyddynt, a rolau cenedlaethol, rhyngwladol a dinesig ein sefydliadau addysg. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd llawn amser a rhan amser a fydd o fudd i ddysgwyr o bob oedran, ynghyd â chyflogwyr a chymunedau.*

18. Drwy ein deialog reolaidd, ac yn fy llythyr (llythyrau) cylch gorchwyl diweddar i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), rwyf wedi herio'r sector addysg uwch yn benodol, i ymateb i'r heriau yn y flaenoriaeth hon.

19. Croesawyd ymgysylltiad cadarnhaol y sector yn fy Ngweithgor Brexit a thrwy fforymau eraill. Rwyf wedi gallu cadarnhau y bydd myfyrwyr o'r UE yn gymwys i gael cymorth ariannol ym mlynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19 pan fyddant yn astudio yng Nghymru.

20. Fel rhan o'r £20 miliwn a ddarparwyd drwy CCAUC i gefnogi newid strategol, gwahoddodd CCAUC sefydliadau i gyflwyno cynlluniau prentisiaethau lefel uwch mewn meysydd allweddol, gan weithio ar draws sectorau.

21. Pwysleisiodd fy ymateb i Arolwg Diamond ein dull "system gyfan" o sicrhau system gymorth flaengar a chynaliadwy fyfyrwyr. Ar gyfer 2018/19, byddwn yn darparu system unigryw sy'n sicrhau cydraddoldeb o ran cymorth i israddedigion llawn amser a rhan amser, a myfyrwyr ôl-raddedig.

22. Mae polisi Dysgu i Oedolion yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr ag adolygiad o strwythur cyflenwi a model cyllido dysgu i oedolion i sicrhau bod gan y dysgwyr sydd anoddaf i'w cyrraedd, a'r rhai sydd â sgiliau sylfaenol ac anghenion Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, y sgiliau angenrheidiol i symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth. Rydym hefyd yn cefnogi'r sector addysg bellach i ddatblygu ei ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (MATh).

*Adolygu effaith polisïau cyfredol ar leoedd gwag mewn ysgolion, gyda phwyslais ar ysgolion mewn ardaloedd gwledig, er mwyn ymateb yn briodol i'r tueddiadau o ran twf yn y dyfodol.*

23. Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddais fy strategaeth ar gyfer ysgolion gwledig a bach, sy'n cydnabod bod ysgolion mewn gwahanol rannau o Gymru yn wynebu heriau gwahanol wrth inni symud ymlaen â'n diwygiadau. Fel rhan o hyn, byddaf yn ymgynghori cyn hir ar gryfhau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Rydym hefyd yn datblygu'r rhestr gyntaf, a'r dynodiad cyntaf, erioed o ysgolion gwledig.

24. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau. Fodd bynnag, rhaid i'r achos dros gau fod yn un cryf a rhaid ystyried yr holl opsiynau dichonadwy i gau mewn modd cydwybodol, gan gynnwys ffedereiddio. Bydd ein cyllid yn annog a chefnogi datblygiad ffederasiynau, yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion, a'r defnydd o dechnolegau newydd.

25. Rhaid i addysg Gymraeg fod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio lleoedd mewn ysgolion. Mae angen cynllunio'r broses o sicrhau argaeledd addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar hyd at ysgolion cynradd ac uwchradd drwy'r Ffora Addysg Gymraeg lleol. Bydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, felly, yn ganolog i'r gwaith hwn, gan sicrhau cydweithio rhwng rhanddeiliaid allweddol a strategaeth glir a chyson ar gyfer addysg Gymraeg.

*Ymgynghori ymhellach ar argymhellion penodol adolygiad Hazelkorn.*

26. Bydd ymgynghoriad llawn ar ddiwygio'r system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Bydd hyn yn symud ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Hazelkorn, a draddodais yn y Senedd yn gynharach eleni, yn ei flaen. Ar sail argymhellion yr Athro Hazelkorn, byddwn yn ymgynghori ar y cynigion ar gyfer sefydlu un awdurdod strategol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl agweddau ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

*Archwilio'r posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach.*

27. Ym mis Awst 2016, cyhoeddais fod grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y dyfodol. Rwyf wedi gofyn i'r grŵp, fel rhan o'i waith, ystyried a ddylai cylch gorchwyl y Coleg ymestyn i'r sector ôl-16 (addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith), ac, os felly, i ddarparu'r opsiynau posibl imi ynghylch sut i symud hyn yn ei flaen. Mae gwaith y grŵp hwn yn tynnu at ei derfyn a bydd yn darparu adroddiad terfynol ac argymhellion i mi a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn y dyfodol agos.

*Blaenoriaethu cymorth i wella cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan alluogi ac annog arloesedd ac entrepreneuriaeth ar draws ein sectorau cyhoeddus a phreifat mewn cydweithrediad â'n prifysgolion a'n colegau.*

28. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi'r Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol sy'n tynnu ar bartneriaethau a phrofiad y pum grŵp o randdeiliaid gan gynnwys y byd academaidd, busnes corfforaethol ac entrepreneuriaid i ddatblygu strategaeth entrepreneuriaeth sy'n cael ei sbarduno gan arloesedd yng Nghymru. Fel rhan o'u hymgysylltiad, mae'r Rhaglen yn cynnal digwyddiad pwysig i randdeiliaid ym mis Mehefin ar gyfer arweinwyr o'r pum grŵp o randdeiliaid ac rwyf wedi cytuno i gynnal Symposiwm Prifysgolion gyda'r Is-gangellorion a Deoniaid Ysgolion Busnes i drafod y cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng y byd academaidd a'r gymuned fusnes.

29. Rwyf hefyd wedi cwrdd â rhanddeiliaid allweddol i archwilio sut i greu'r amgylchedd cywir i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd masnacheiddio sy'n codi o wybodaeth academaidd. Mae rhaglenni fel SMARTExpertise yn cynnig cymorth ariannol ac yn annog prosiectau cydweithredu arloesol rhwng diwydiant a sefydliadau ymchwil Cymreig.

*Ystyried argymhellion Adolygiad Diamond, gyda'r nod o roi'r argymhellion ar waith yn gynnar lle bo hynny'n briodol, ond ni fydd effaith negyddol ar y gyllideb ar gyfer addysg uwch os bydd unrhyw newidiadau.*

30. Bwriad y Llywodraeth yw rhoi Pecyn Diamond ar waith yn llawn, gyda dim ond mân addasiadau, yn ogystal â darparu difidend yn y dyfodol ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch.

31. Roedd ein hymateb i'r Adolygiad yn amlinellu dull cam wrth gam o weithredu'r argymhellion a dderbyniwyd, gan ddechrau yn 2018/19. Mae'r gwaith angenrheidiol i alluogi hyn yn mynd ragddo'n dda. Mae mabwysiadu dull cam wrth gam wedi caniatáu inni ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae'r brys mwyaf i gwblhau gwaith.

32. Ar yr un pryd, lansiais ymgynghoriad i ganfod barn y partïon sydd â diddordeb ynghylch gweithredu'r newidiadau arfaethedig i gyllid cymorth i fyfyrwyr. Wrth galon argymhellion Adolygiad Diamond mae cynigion i ddiwygio'r trefniadau cyllido ar gyfer addysg uwch ac, yn benodol, ar gyfer ail-lunio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr - i symud i system symlach sy'n cydnabod costau cyfannol astudiaethau addysg uwch i'r myfyrwyr ac sy'n cyfeirio'r lefel uchaf o gymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad maes o law.

*Crynodeb o'r newidiadau i'r blaenoriaethau neu'r canlyniadau disgwyliedig o fewn y portffolio Addysg.*

33. Rydych wedi gofyn am fanylion dyraniadau diweddaraf y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg ac unrhyw newidiadau a wnaed ers Cyllideb Derfynol 2017-18. Oherwydd amseriad y Gyllideb Atodol Gyntaf, ni fu unrhyw newid i dablau BEL y gyllideb derfynol, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2016.

34. O gymharu â dyraniadau Cyllideb Derfynol 2017-18, bydd gostyngiad rheolaidd o £18 miliwn yn y dyraniad DEL Adnoddau ar gyfer Addysg yn y flwyddyn ariannol 2017-18 a gostyngiad o £6 miliwn mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) heb fod yn arian parod. Mae'r gostyngiadau'n ymwneud â'r ddau drosglwyddiad y cyfeirir atynt isod:

a) *Gyrfa Cymru*

35. Trosglwyddo DEL Adnoddau o £18.8 miliwn o'r MEG Addysg i MEG yr Economi a Seilwaith. Mae'r cyllid o £18.8 miliwn yn cefnogi gwaith Gyrfa Cymru o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Mae gan y gwasanaeth gyrfaoedd rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi a gwella'r gyfatebiaeth rhwng y llwybrau dysgu a'r cymwysterau y mae unigolion yn eu dilyn ac anghenion y cyflogwyr a'r farchnad lafur ehangach. Mae Gyrfa Cymru yn gyfrwng ar gyfer darparu nifer o raglenni sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd fel y Porth Sgiliau Unigol, Twf Swyddi Cymru a ReAct. Bydd trosglwyddo cyllid o Gyrfa Cymru i MEG yr Economi a Seilwaith yn lleihau'r cymhlethdod ac yn helpu i alinio penderfyniadau cyllid ehangach.

36. Trosglwyddo £6 miliwn o AME nad yw'n arian parod o'r MEG Addysg i MEG yr Economi a Seilwaith. Mae'r cyllid yn ymwneud â'r newid mewn darpariaeth pensiynau. Mae'n angenrheidiol gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo AME nad yw'n arian parod gan fod hyn wedi'i seilio'n uniongyrchol ar y prisiad o rwymedigaeth pensiwn CCDG.

b) *Cynllun Bwrsariaeth y GIG*

37. Trosglwyddo £0.800 miliwn o'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r MEG Addysg mewn perthynas â rhoi cymorth i fyfyrwyr yn sgil y newidiadau sy'n deillio o gynllun Bwrsariaeth y GIG yn 2017/18. Bydd y cynnydd hwn mewn cyllid yn dod yn rhan o BEL 4704 Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi cydweithio â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gymeradwyo'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr a fyddai wedi derbyn Bwrsariaeth y GIG.

38. Bydd yr holl drosglwyddiadau a amlinellir uchod yn cael eu cynnwys mewn cyllideb atodol yn y dyfodol yn 2017-18 a bydd yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid a chymeradwyaeth y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Ar wahân i'r rhain, ar hyn o bryd, ni fydd newidiadau pellach i ddyraniadau

nac ailflaenoriaethu cyllid a gynlluniwyd ar gyfer Cyllideb Atodol yn y dyfodol.

CYPE(5)-18-17 – Papur 2 – i'w nodi

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0334/17

Lynne Neagle AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Simon Thomas AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales
SeneddFinance@assembly.wales

25 Mai 2017

Annwyl Lynne a Simon,

Yn unol â'r ymrwymiadau a wneuthum i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn fy llythyrau dyddiedig 21 Mawrth ac 11 Ebrill, rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y newidiadau a ragwelir i Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), mewn ymateb i bryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor gan SNAP Cymru.

Fel y dywedais eisoes, roedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynglŷn â'r gost sy'n gysylltiedig ag anghytundebau ac apelau yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan SNAP Cymru. Cyfarfu fy swyddogion â chynrychiolwyr o SNAP ddiwedd mis Mawrth i drafod eu pryderon ac maent wedi gweithio ar ôl hynny gyda'r sefydliad i wneud newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl derbyn gwybodaeth ddiwygiedig. Darparodd SNAP Cymru wybodaeth newydd a oedd yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer yr achosion o ddatrys anghydfodau (tua 50%) a'r gost i awdurdodau lleol am wasanaethau datrys anghytundebau (o tua 75%).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ffigurau diwygiedig wedi cael effaith sylweddol ar yr amcangyfrif o gost y Bil yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.  Roedd angen hefyd ymgymryd â swm sylweddol o waith er mwyn gwneud y newidiadau drafftio angenrheidiol.  Er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda, nid yw wedi'i gwblhau eto gan fy mod yn dymuno sicrhau bod digon o amser ar gael i ymgymryd â phroses sicrwydd ansawdd fanwl.

Felly, er fy mod mewn sefyllfa i roi'r amcangyfrifon gorau diweddaraf i'r Pwyllgor o ganlyniad i'r newidiadau, gallai'r rhain newid yn dilyn y broses wirio a chlirio fewnol angenrheidiol.  Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y misoedd nesaf ac yn cael ei adlewyrchu yn y fersiwn nesaf o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y byddaf yn ei gosod gerbron y Cynulliad cyn Cyfnod 3 ym mis Medi.

Yn ychwanegol at y newidiadau sy'n deillio o'r wybodaeth ddiwygiedig gan SNAP Cymru, rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i adolygu'r Adolygiad Effaith Rheoleiddio yng ngoleuni newidiadau eraill ers mis Rhagfyr 2016.  Yn benodol, yr achos o gyfrif dwbl, yr ysgrifennais at y Pwyllgorau amdano ym mis Chwefror, a'r ymrwymiad a wnaeth y Llywodraeth ym mis Chwefror i neilltuo dros £20 miliwn o gyllid i weithredu'r Rhaglen Trawsnewid ADY yn ystod y Cynulliad presennol.

Gan gymryd hyn oll i ystyriaeth:

1. disgwylir i'r arbedion parhaus a amcangyfrifir ostwng o £14,182,920 (fel y cyhoeddwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mis Rhagfyr 2016), dros y pedair blynedd (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), i £3,675,240 - felly o tua £3.5 miliwn y flwyddyn i tua £900,000 y flwyddyn;
2. disgwylir i gost gyffredinol amcangyfrifedig y Bil newid o arbed £4,828,480 (fel y cyhoeddwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mis Rhagfyr 2016) dros y pedair blynedd i gost o £8,279,250.


Rwy'n ddiolchgar i SNAP Cymru am y ffordd adeiladol y mae wedi gweithio gyda fy swyddogion ar y mater hwn.

Ar y cyfan, er y bydd cost yn gysylltiedig â gweithredu'r Bil, bydd hyn yn cael ei wario gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gwmpasu gan y pecyn cyllid £20 miliwn ar gyfer gweithredu'r Bil a gyhoeddais ym mis Chwefror.  Ar ôl iddi gael ei gweithredu, disgwylir i'r system newydd greu arbedion, a fydd yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod pontio.  Ond nid dyma yw nod y diwygiadau hyn; eu nod yw gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Nid arbed costau yw nod y broses ddiwygio hon ac nid dyma fu ei nod erioed. Y sbardun yw penderfyniad i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr.

Mae newidiadau ar y raddfa hon yn siomedig ac mae perygl y bydd partneriaid yn pryderu am gadernid rhagamcanion y Llywodraeth am gost gweithredu'r Bil a'r Rhaglen Drawsnewid ehangach. Fodd bynnag, mae safbwynt y Llywodraeth ar oblygiadau ariannol y diwygiadau pwysig ac angenrheidiol hyn wedi bod yn glir. Roedd cost yn gysylltiedig â phontio yn ddisgwyliedig ac yn angenrheidiol i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau wedi'u paratoi; fodd bynnag, yn dilyn y cyfnod pontio, roedd disgwyl i'r system newydd fod yn rhatach i'w gweithredu. Dyma farn Llywodraeth Cymru o hyd, ac mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr awdurdodau lleol sydd eisoes yn gweithredu sawl elfen o'r system newydd, ac mae'n dal i gael ei ategu gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgorau.

Yn gywir



**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

26.05.17

Annwyl Alun

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai. Rwy'n siomedig bod y llythyr hwn wedi'i anfon y diwrnod ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod un, sydd wedi atal y wybodaeth hon rhag bod yn rhan o ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r newidiadau o ran costau ac arbedion a amlinellir gennych yn eich llythyr yn rhai sylweddol ac maent yn effeithio'n sylweddol ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Mae'r wybodaeth a amlinellir yn eich llythyr yn newid goblygiadau ariannol cyffredinol y Bil o arbediad, i gost. Yn ychwanegol at hyn mae'r gost yn nodedig, sef £8,279,250 (dros y cyfnod gweithredu). Yn amlwg, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y gwaith craffu yng nghyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid, ond byddent wedi bod yn rhan allweddol o ystyriaethau'r Pwyllgor.

Rydych yn awgrymu yn eich llythyr y bydd y gost hon yn codi gan Lywodraeth Cymru ac y bydd yn cael ei thalu yn sgîl y pecyn ariannu o £20 miliwn i weithredu'r Bil, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Mae hyn yn codi rhagor o gwestiynau ynghylch beth yw diben y pecyn ariannu £20 miliwn hwn. Yn eich llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 13 Mawrth 2017 roeddech yn amlinellu sut y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddosrannu. Rwy'n cymryd yn ganiataol y bydd angen ystyried hyn eto, ac felly byddwn yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn.

Rwy'n deall bod y newidiadau hyn wedi cael eu gwneud yn dilyn y pryderon a godwyd gan SNAP Cymru yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1, ond nid yw hyn yn golygu na ddylid craffu ar y newidiadau hyn. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â'r £20 miliwn o arian ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, a'r camgymeriadau costio a nodwyd yn fuan cyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, yn golygu na all rhanddeiliaid, nac Aelodau'r Cynulliad, fod yn sicr o ddilysrwydd costiadau'r Llywodraeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rwyf hefyd yn pryderu eich bod yn nodi yn eich llythyr ei bod yn parhau’n bosibl y gall yr amcangyfrif a ddarparwyd gennych "newid", ac nad oes gennym, felly, ddarlun cyflawn o hyd o gostau net y Bil. Nodaf hefyd, yn eich llythyr eich bod yn bwriadu diweddaru’r RIA ar ôl y trafodion yng nghyfnod 2, a chyn y trafodion yng Nghyfnod 3. Credaf, fodd bynnag, y dylai Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gael ei gyhoeddi cyn y ddadl yng nghyfnod un, a phe na bai hyn yn bosibl, y dylech o leiaf oedi cyn cynnig penderfyniad ariannol mewn perthynas â’r Bil hwn nes bod crynodeb wedi’i ddiweddaru o gostau wedi cael ei ddarparu a bod cyfle i graffu arno wedi’i ganiatáu. Pe baech yn barod i ohirio’r cynnig penderfyniad ariannol, hoffwn eich gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 7 Mehefin am 11.30 i fynd i’r afael â’r materion hyn.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ynghylch y mater hwn, ac rwyf hefyd yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



Simon Thomas
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

26 Mai 2017

Annwyl Alun

**Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): Costau diwygiedig**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ac am y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau a ragwelir i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn pryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor gan SNAP Cymru.

Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Cyfnod 1 ar y Bil, roedd y Pwyllgor yn barod yn bryderus iawn ynghylch cadernid yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Un o'n hargymhellion yw eich bod yn ailystyried yr amcangyfrifon o gostau ac arbedion, ac yn rhoi eglurder arnynt, cyn cyflwyno Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn dilyn Cyfnod 2.

Mae'r newidiadau i'r costau a'r arbedion posibl, fel y'i nodir yn eich llythyr, yn sylweddol iawn ac yn golygu cynnydd enfawr yng nghostau cyffredinol y Bil. Mae'n siomedig iawn nad oedd y ffigurau diwygiedig hyn ar gael yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 er mwyn iddynt gael eu trafod yn drwyadl a'u cynnwys yn ein casgliadau a'n hargymhellion.

Yn yr amser byr sydd ar gael cyn y ddadl Cyfnod 1 a'r drafodaeth ar y penderfyniad ariannol, rwy'n gwerthfawrogi efallai na fydd yn bosibl cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig llawn. Felly, er mwyn helpu i lywio trafodaethau'r Cynulliad, byddai o fudd mawr pe gallech gyhoeddi crynodeb manwl o'r newidiadau, gan amlinellu'n glir yr amcangyfrif gorau o gostau ac arbedion diwygiedig y Bil.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Yn amlwg, ni fyddai'r Pwyllgor yn dymuno achosi unrhyw oedi pellach i amserlen ddeddfwriaethol y Bil, ond mae'n bwysig bod y Cynulliad yn deall y costau cyn symud ymlaen at Gyfnod 2.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Elin Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

26.05.17

Annwyl Elin

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at fy mhryderon ynghylch craffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), y trefnwyd i gynnal y ddadl Cyfnod 1 arno ddydd Mawrth 6 Mehefin.

Y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod 1 oedd dydd Mercher 24 Mai. Ddydd Iau 25 Mai anfonodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes lythyr at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y newidiadau a ragwelir i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Mae'r goblygiadau o ran cost a nodwyd yn y llythyr yn sylweddol, gyda'r arbedion a ragamcanwyd wedi lleihau, a'r costau wedi cynyddu. Y newidiadau o ran costau, fel y nodir yn llythyr y Gweinidog, yw:

- Disgwylir i'r arbedion parhaus amcangyfrifedig ostwng o £14,182,920 (fel y cyhoeddwyd yn yr RIA ym mis Rhagfyr 2016), dros y cyfnod o bedair blynedd (y cyfeirir atynt yn yr RIA), i £3,675,240 - felly o tua £3.5 miliwn y flwyddyn i tua £900,000 y flwyddyn;

- Mae disgwyl i gost gyffredinol amcangyfrifedig y Bil newid o arbediad o £4,828,480 (fel y cyhoeddwyd yn yr RIA ym mis Rhagfyr 2016) dros y cyfnod o bedair blynedd i gost o £8,279,250.

Gan fod y llythyr hwn wedi'i gyhoeddi ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod 1, ychydig cyn toriad yr hanner tymor, ni fyddaf yn cael cyfle i drafod y newidiadau hyn gyda'r Pwyllgor Cyllid cyn y ddadl Cyfnod 1. Rwy'n ei chael hi'n frawychus bod y costau hyn wedi cael eu hanfon yn y cam hwyr hwn, gan nad oes cyfle i graffu arnynt.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog ac wedi gofyn, ar sail y newid hwn, y costau sylweddol a'r materion ariannol eraill a gododd yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1, ei fod yn oedi o ran cynnig penderfyniad ariannol, er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried y costau hyn yn llawnach.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried a yw'r diffyg cyfle i graffu ar gostau sylweddol o'r fath yn dderbyniol.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/ARD/0334/17-2

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Mehefin 2017

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am fy mwriad i ohirio'r penderfyniad ariannol ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) tan ar ôl toriad yr haf.

Roedd y penderfyniad ariannol yn cael ei gyflwyno ar gyfer pleidlais yn y Cynulliad Cenedlaethol heddiw (6 Mehefin). Fodd bynnag, yn dilyn cais gan gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, rwy wedi penderfynu gohirio'r weithdrefn.

Mae fy swyddogion yn adolygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ar hyn o bryd. Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i fwrw ymlaen â'r penderfyniad ariannol yn ystod y cam hwn o'r broses. Rwy'n disgwyl y bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar gael erbyn diwedd toriad yr haf, a byddaf yn ail gyflwyno'r penderfyniad ariannol cyn gynted ag y bo modd yn yr hydref. Bydd hynny'n rhoi cyfle i bob Aelod graffu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn pleidleisio ar y penderfyniad ariannol.

Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol yn cyfrifo costau arfaethedig y system anghenion dysgu ychwanegol newydd. Roedd y rhain, yn rhannol, yn seiliedig ar ffigurau yr oedd SNAP Cymru wedi'u darparu. Yn dilyn hynny, roedd SNAP Cymru wedi cwestiynu cywirdeb y ffigurau hynny mewn tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod cam 1 craffu'r Bil.

Mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos â SNAP Cymru ar yr wybodaeth ariannol ddiwygiedig, gan gynnwys y goblygiadau o ran costau'r ddeddfwriaeth a'r newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddogfen gynhwysfawr a chymhleth, a bydd Aelodau'n deall bod gwaith manwl a wnaed mewn ymateb i'r wybodaeth newydd gan SNAP Cymru wedi bod yn gynhwysfawr ac yn gymhleth hefyd. Y brif flaenoriaeth yw sicrhau bod y ffigurau diwygiedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhai cadarn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi darparu costau dangosol lefel uchel i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac i'r Pwyllgor Cyllid.

Nid yw'r costau dangosol diwygiedig yn arwain at gynnydd yng nghost gyffredinol cynnal y system newydd; fodd bynnag, mae gostyngiad yn lefel ragamcanol yr arbedion o'r hyn a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Nid yw'r newidiadau'n cynyddu cost gweithredu'r Bil.

Disgwylir i'r system newydd fod yn llai drud i'w chynnal na'r system AAA bresennol. Dyma brofiad yr awdurdodau lleol sy'n gweithredu agweddau ar y system newydd, megis Cyngor Sir Gâr, sydd wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd ac wedi ailfuddsoddi'r arbedion mewn dulliau arloesol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

Mae'r costau lefel uchel sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer y Bil yn dangos, o ystyried y costau parhaus a'r costau gweithredu, mai cost o £8,279,250 yw'r balans dros gyfnod pedair blynedd o gyfrifo'r ffigurau hyn.

Ar ôl ei gweithredu, mae'r ffigurau dangosol diwygiedig yn amcangyfrif arbedion o £3,675,240 dros y cyfnod o bedair blynedd.

Bydd gweithredu'r system yn costio. Rydym wedi bod yn glir y byddwn yn buddsoddi mewn cyfnod pontio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cefnogi i newid i'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy nag £20m wrth weithredu'r Bil a'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol ehangach.

Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r gost lawn o newid o'r system AAA i'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd.

Rwy'n deall yn llwyr bwysigrwydd amcanestyniadau a gwaith cynllunio ariannol. Mae gwaith manwl ar y costau hyn a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau, a bydd yn destun proses sicrhau ansawdd drwyadl.

Rwy wedi ymrwymo i gydweithio ag Aelodau a rhanddeiliaid dros yr haf i sicrhau bod y Bil, a'r wybodaeth gysylltiedig sydd ar gael i'r Aelodau, yn gadarn ac yn gynhwysfawr, er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau trafodaeth drylwyr ar sail gwybodaeth ar bob agwedd ar y ddeddfwriaeth.

Byddaf yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybod am yr holl ddatblygiadau diweddaraf wrth i'r Bil a'r rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol symud ymlaen.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-L-ARD-0365-17

Lynne Neagle AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

6 Mehefin 2017

Annwyl Lynne,

Fel rhan o'n fframwaith ymgysylltu ar y rhaglen i drawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sefydlwyd y Grŵp Arbenigol Iechyd ADY ym mis Rhagfyr 2016 ac mae'n uniongyrchol atebol i'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY.

Mae yna gynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd ar y Grŵp Arbenigol Iechyd ADY, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol o bob math sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY, yn ogystal ag awdurdodau lleol a phenaethiaid. Ei dasg benodol yw rhoi cyngor inni ar rôl ymarferol y gwasanaeth iechyd yn y system ADY newydd a sut i sicrhau bod y gofynion statudol newydd sydd ar gyrff y GIG yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd hyn oll yn cyfrannu at fersiwn nesaf y Cod ADY. Mae'r Grŵp wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch materion iechyd hyd yma, a chaiff y rhain eu hystyried yn llawn a, lle bo'n briodol, eu hadlewyrchu yn y Cod ADY diwygiedig. Bydd y Cod ei hun yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn maes o law.

Rydych yn ymwybodol bod y Grŵp wedi cynghori y dylai rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA), fel y'i hamlinellir yn y drafft presennol o'r Cod, gael ei chryfhau drwy egluro cyfrifoldebau strategol y rôl. Mae'r Grŵp yn glir na fydd y SACDA yn gyfrifol am reoli'r gwaith bob dydd o asesu, trefnu neu gyflwyno Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Rhaid i'r swyddogaethau gweithredol hyn gael eu sefydlu ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r Grŵp wedi argymell y dylai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

unigolyn sydd mewn swydd sy'n uniongyrchol islaw lefel y Bwrdd gyflawni rôl y SACDA er mwyn ei gwneud yn bosibl uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd, ac er mwyn sicrhau bod y graddau y mae'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol yn cael ei fonitro. Disgwylir i'r SACDA fod yn ddigon profiadol ac annibynnol i hyrwyddo ADY o fewn y bwrdd iechyd a chwrdd yn rheolaidd â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr perthnasol o fewn yr awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n llwyddiannus gan bob asiantaeth.

Mae'r Grŵp wedi argymell y dylid cyflogi 'cydgysylltydd iechyd' i ategu rôl y SACDA ar y lefel leol briodol, ac y dylai fod yn bwynt cyswllt i ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni a phlant a phobl ifanc, a'u cyfeirio i'r gweithwyr iechyd proffesiynol cywir. Mae'r Grŵp wedi cynghori y dylai ymwelydd iechyd neu nyrs iechyd cymunedol y plentyn wneud unrhyw waith cydgysylltu cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol. Yn unol â Fframwaith Nyrsio Ysgolion Cymru, dylai nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gydgysylltu gwasanaethau iechyd gan fod yn bwynt cyswllt i awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i'w cyfeirio i'r cysylltiadau/gwasanaethau iechyd perthnasol, gan uwchgyfeirio unrhyw fylchau yn y gweithlu i'r SACDA os oes angen.

Mae'r Grŵp Arbenigol Iechyd wedi cefnogi'r newid yn y system bresennol yn llawn ac wedi argymell y dylai ymyriadau a chyngor iechyd, er mwyn cefnogi ethos y cynllun datblygu unigol (CDU) newydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, roi sylw i'r canlyniadau a ddisgwylir ar gyfer y plentyn o fewn cyfnod penodol. Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn defnyddio iaith y gall rhieni, plant, pobl ifanc ac ymarferwyr addysg ei deall, gan osgoi jargon, acronymau a thermau meddygol diangen. Mae'r Grŵp yn cynghori y dylai pob tystiolaeth iechyd a ddarperir gan weithwyr iechyd proffesiynol i awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a sefydliadau addysg bellach gael ei safoni, a'i bod yn gyson â'r cynnwys y mae'n rhaid ei weld mewn CDUau. Mae'r Grŵp wedi cynghori y dylid creu templed ar gyfer tystiolaeth iechyd er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni (amcanion, nodau ac ymyriadau sydd ag amserlen) a sicrhau y gall y sawl sy'n cydgysylltu CDU plentyn ychwanegu tystiolaeth iechyd i'r cynllun yn hawdd. Bydd y grŵp arbenigol nawr yn datblygu templed safonol ar gyfer tystiolaeth iechyd a gaiff ei gynnwys yn y Cod maes o law; rydym yn hapus i rannu hwn gyda chi unwaith y cytunir arno.

Mae'n bwysig bod pob gweithiwr proffesiynol yn gwrando ar rieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc ac yn eu cynnwys yn llawn yn y penderfyniadau a wneir am y plentyn neu'r person ifanc. Mae gweithio ochr yn ochr â rhieni a dysgwyr wrth ddatblygu CDU yn hanfodol wrth bennu disgwyliadau ac amcanion realistig. Mae'r Grŵp wedi cynghori y dylid rhannu pob adroddiad tystiolaeth gyda theulu'r plentyn a phob gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol arall.

Mae'r Grŵp yn ymwybodol o'r galw sydd ar weithwyr iechyd proffesiynol i fynd i gyfarfodydd asesu ac adolygu, sy'n gallu bod yn drwm, ac mae wedi argymell y dylid blaenoriaethu pwy sy'n eu mynychu, yn ôl yr angen. Er enghraifft, yn achos plant nad yw eu hanghenion yn rhai cymhleth, lle mae'r ymyriadau iechyd sydd eu hangen yn rhai lefel isel drwy CDUau a gynhelir gan ysgolion, argymhellir na ddylid disgwyl i weithwyr iechyd proffesiynol fynd i bob cyfarfod adolygu (er enghraifft, lle cynhelir DDdY ar yr un lefel). Dylid blaenoriaethu pa weithwyr iechyd proffesiynol sy'n mynd i gyfarfodydd pan fwriedir newid DDdY iechyd neu le wyddon bydd rhiant yn codi pryder.

Mae'r data ar DDdY a gesglir ar lefel byrddau iechyd yn gyfyngedig ac nid oes modd cymharu data un bwrdd ag un arall. Mae’r Grŵp yn argymell dylid casglu data cyson oddi wrth y gwasanaeth iechyd a'u hanfon at y SACDA er mwyn rhoi darlun llawn o DDdY iechyd plant a phobl ifanc ag ADY. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys gweithgarwch a gwybodaeth ynghylch a yw'r ymyriad yn gydnaws â'r nodau yr anelir atynt. Dylai'r SACDA sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at ddibenion cynllunio strategol er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau yn seiliedig ar yr angen. Bydd y Grŵp yn parhau i drafod pa wybodaeth y dylai pob bwrdd iechyd ei chasglu, a bydd y Cod yn cynnwys canllawiau ar hyn.

Therapi lleferydd ac iaith yw'r ymyriad iechyd mwyaf cyffredin i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Mae’r Grŵp yn nodi nad rhywbeth i'r GIG yn unig yw cyfathrebu a datblygu lleferydd ac iaith. Dylai hyn fod yn fater trawsbynciol - lle mae angen cydweithredu a chyfathrebu'n effeithiol ar draws pob sector. Mae'n rhaid meithrin capasiti ar bob lefel (cyffredinol, penodol ac arbenigol) er mwyn i blant osgoi gorfod defnyddio gwasanaethau arbenigol.

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod osgoi a datrys anghydfod yn effeithiol yn allweddol er mwyn osgoi gwrthdaro, a bod angen gwneud mwy o waith i gadw achosion rhag cael eu huwchgyfeirio i'r Tribiwnlys. Dylai rhieni fod yn rhan o benderfyniadau a'r broses o bennu nodau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o anghydfodau diangen. Mae'r Grŵp wrthi'n datblygu siart lif i'w chynnwys yn y Cod, sy'n amlinellu'r llwybrau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau. Bydd y siart lif yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol ac iechyd gydweithio, gan gynnwys sut bydd y SACDA yn helpu i ddatrys anghydfodau. Byddem yn hapus i rannu hwn â'r Pwyllgor maes o law.

Lle darperir asesiadau iechyd o ffynonellau preifat fel tystiolaeth i'r Tribiwnlys, cytunodd y Grŵp y dylai'r Tribiwnlys hefyd geisio tystiolaeth gan y GIG, lle nad yw eisoes wedi'i darparu. Cytunodd y Grŵp hefyd y dylai pob tystiolaeth ganolbwyntio ar sut y gall gwasanaethau gyfrannu at gyflawni amcanion y plentyn i helpu'r Tribiwnlys pan ddaw asesiadau i law sy'n ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro â'i gilydd. Mae'r union gamau i'w cymryd yn cael eu hystyried yn fanylach ar hyn o bryd.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynlluniau peilot iechyd ADY. Hyd yma, canolbwyntiwyd ar ddatblygu llwybrau. Bydd cyfnod gweithredol y cynlluniau peilot yn cychwyn yn yr haf eleni, a bydd yn sail i waith y Grŵp. Y bwriad yw y bydd byrddau iechyd yn adeiladu ar eu modelau cyfredol i dreialu'r syniadau a gyflwynir i'r Grŵp. Rydym yn bwriadu treialu modelau newydd er mwyn helpu i weithredu’r system ADY mewn dau fwrdd iechyd fel a ganlyn:

- Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn treialu rôl cydgysylltydd iechyd ar gyfer plant cyn-ysgol sy’n araf yn datblygu, a/neu sydd ag anghenion iechyd cymhleth, ac yn datblygu model integredig o fewn y bwrdd iechyd i sicrhau dull asesu holistaidd a fydd yn amlinellu proses drosglwyddo lwyddiannus i’r dosbarth meithrin/ysgol. Bydd hyn yn cynnwys nodi'r SACDA a sut a pha fath o faterion y byddai'r cydgysylltydd clinigol yn eu cyfeirio i'r SACDA. Bydd yn profi rôl y cydgysylltydd iechyd rheng flaen a argymhellir gan y Grŵp Arbenigol Iechyd, yn cynnwys i:
  - roi cyngor i weithwyr proffesiynol ar ddatblygu’r CDU yn ystod y cyfnod cyn-ysgol,
  - cydgysylltu cyfarfodydd ynghylch y broses drosglwyddo i’r ysgol,
  - helpu’r Cydgysylltydd ADY i drefnu cyfarfodydd i blant a phobl ifanc o oedran ysgol ac ynghylch prosesau fel symud i ysgol gyfun a gadael yr ysgol,
  - datblygu clinigau dan arweiniad nyrsys, gan lunio llwybr clir ar gyfer cael gafael ar weithwyr meddygol proffesiynol.


- Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd yn rhedeg prosiect gyda deg o ysgolion yn ardal y bwrdd iechyd er mwyn helpu i nodi’r plant hynny sydd ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar a rhoi ar waith y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i roi hyfforddiant i staff ar ddefnyddio adnodd arloesol i sgrinio datblygiad lleferydd ac iaith plant wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin; a’u hyfforddi ar weithgareddau/ymyriadau i hwyluso datblygiad sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y cwricwlwm. Ei nod yw lleihau atgyfeiriadau hwyr a/neu amhriodol i therapi lleferydd ac iaith a phediatregwyr cymunedol drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer nodi anghenion dysgu ychwanegol posibl.

- Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn secondio dau therapydd lleferydd ac iaith i dreialu model i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i weithio gyda phlant mewn ysgolion arbennig. Mae'r model hwn ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, penodol ac arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol ac iechyd. Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cefnogi'r gwaith o dreialu'r model therapïau mewn ysgolion arbennig mewn byrddau iechyd eraill fel rhan o'r gwaith hwn. Bydd y prosiect hefyd yn asesu sut y

gellid addasu'r model ar gyfer ysgolion prif ffrwd a datblygu canllawiau drafft ar gyfer ysgolion prif ffrwd.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o fudd i'r Pwyllgor a byddwn yn parhau i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth gyson yn ystod taith y Bil drwy broses ddeddfwriaethol y Cynulliad.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/VG/1945/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF9 1NA

24 Mai 2017

Annwyl Lynne,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 30 Mawrth, rwy'n atodi isod ddolen i'r Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru ar ei newydd wedd.

http://llyw.cymru/topics/health/professionals/nursing/early/?skip=1&lang=cy

Mae'n ddrwg iawn gennyf nad anfonais y ddolen hon atoch cyn y lansiad ar 18 Mai, fel yr addewais yn fy lythyr blaenorol.

Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen o ddiddordeb i chi ac i aelodau'r Pwyllgor. Byddaf yn gwneud datganiad llafar ar y fframwaith yn y Senedd ar 6 Mehefin.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Mai 2017

Annwyl Lynne

**Deisebau sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd**

Rwy'n awyddus ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl a sefydliadau sy'n cyflwyno deisebau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn yr ysbryd hwn, a dyhead i gefnogi cydweithio rhwng pwyllgorau'r Cynulliad, rwy'n ysgrifennu atoch i rannu gwybodaeth am y deisebau rydym yn eu trafod ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phynciau o fewn cylch gwaith eich Pwyllgor.

Mae'r rhestr gyfredol i'w gweld yn atodiad i'r llythyr hwn.

Os yw unrhyw un o'r deisebau yn berthnasol i'ch rhaglen waith gyfredol, bydd o gymorth i ni yn ein trafodaethau pe allwch chi, neu'ch tîm clercio, roi gwybod i ni. Byddwn yn fwy na bodlon rhoi rhagor o wybodaeth i chi am unrhyw un o'r deisebau hyn.

Yn gywir

Mike Hedges AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

**Atodiad**

| | |
|---|---|
| P-04-408 | Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc |
| P-04-481 | Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru |
| P-04-522 | Asbestos mewn Ysgolion |
| P-04-576 | Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol |
| P-04-606 | Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb unrhyw ymyrraeth neu ragfarn. |
| P-04-628 | Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb |
| P-04-679 | Dileu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru |
| P-05-707 | Rhaid i Hyfforddiant Athrawon Gynnwys Hyfforddiant Statudol ar Awtistiaeth |
| P-05-716 | Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau Arriva Cymru |
| P-05-722 | Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig |
| P-05-735 | Gwneud y cyfnod sylfaen yn fwy effeithiol ar gyfer ein plant, darparu mwy o athrawon a dileu y TASau blwyddyn 2. |
| P-05-742 | Peidiwch â gadael i Forsythia gau! |
| P-05-746 | Cludiant Ysgol am Ddim i Holl Blant Cymru |
| P-05-748 | Bysiau Ysgol i Blant Ysgol |
| P-05-751 | Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant |
| P-05-752 | Meithrin gallu plant i wrthsefyll seiberfwlio |

| | |
|---|---|
| P-05-754 | Diffyg Cymorth i Blant ag Anableddau Mewn Argyfwng |
| Casglu llofnodion | Cael Gwared ar y Rhwymedigaeth ar Ysgolion i Gynnal Gweithredoedd Addoli Crefyddol |
| Casglu llofnodion | Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol |

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

25 Mai 2017

Annwyl Alun,

**Gwaith/gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru**

Diolch yn fawr am gyfrannu at waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn sgil cyhoeddi ein hadroddiad ar **Gwaith Ieuenctid yng Nghymru**. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi llwyddo i lywio eich syniadau ar y mater hwn ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi yn yr un modd. Fel y cofiwch o'n trafodaethau a gafwyd ar y mater hwn, mae'r Pwyllgor yn bendant o'r farn bod galluogi pob person ifanc yng Nghymru i gael mynediad at wasanaethau ieuenctid o safon yn hanfodol.

I gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith craffu parhaus, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ganlynol inni:

– Rydych wedi ymrwymo i adnewyddu'r canllawiau statudol 'Ymestyn Hawliau' ac yn eich datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 4 mis Ebrill 2017 dywedasoch y bydd ymgynghoriad ynghylch hyn yn ystod yr hydref 2017 yn dilyn yr adolygiad gan Margaret Jervis MBE. A allech egluro sut y mae hyn yn berthnasol i'r adolygiad o 'Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru'? Mae'r strategaeth bresennol yn dod i ben yn 2018. A fydd strategaeth newydd ar waith cyn hynny a chyn lansio'r canllawiau statudol newydd yn yr haf 2018?

– Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod am y gwaith a gomisiynwyd, ac sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Glyndŵr, ar gyfer yr adolygiad o'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Rwy'n falch o wybod bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ond rwy'n poeni am y cyfnod eithaf byr ar gyfer y broses ymgynghori gyda sefydliadau rhanddeiliaid (3 Mai -15 Mai). Er mai'r nod yw cynnwys cyrff cynrychiadol yn yr ymchwil, efallai na fydd gan rai ohonynt yn y trydydd sector yr adnoddau priodol er mwyn iddynt  ymateb mewn da

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

bryd. Rwy'n sicr eich bod yn cytuno y bydd angen i'r adolygiad ymestyn allan at ystod ehangach o leisiau er mwyn iddo fod yn strategaeth sydd wedi'i llywio'n briodol.

- Yn eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor dywedasoch wrth yr Aelodau y byddai cynllun gweithredu manwl i roi argymhellion y Pwyllgor ar waith yn cael ei lunio a'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2017. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r Pwyllgor, gan gynnwys copi o'r cynllun hwn?
- Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o awdurdodau lleol sydd wedi cynnal 'asesiadau o ddigonolrwydd'. A allech hefyd roi gwybodaeth ynghylch a ydych wedi'ch bodloni bod y rhain wedi arwain at drosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael i bobl ifanc a ddarperir trwy'r sectorau gwirfoddol a statudol?
- Roedd y Pwyllgor yn wir pryderu y byddai gwasanaethau ieuenctid yn agored i ansicrwydd ariannol os nad yw awdurdodau lleol yn cael arweiniad clir ac yn atebol o ran sut y dylid gwario'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi gwasanaethau ieuenctid. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o ffrydiau ariannu gwaith ieuenctid a amlinellwyd gennych yn eich ymateb i'r Pwyllgor?
- Nid yw'n glir sut y bydd y canllawiau ar gyfer Ymestyn Hawliau yn cael eu cyflawni o ystyried y cyfnod o ansicrwydd ariannol. A fydd grant Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol ac ar yr un lefel? A fydd y meini prawf yn aros yr un fath? Os oes cynlluniau i newid y meini prawf, beth ydyn nhw?
- Yn eich datganiad ar 4 Ebrill 2017, cyhoeddwyd gennych y byddai bwrdd gwasanaethau cymorth ieuenctid cenedlaethol dan gadeiryddiaeth annibynnol yn cael ei sefydlu i gynghori ar yr adolygiad o 'Ymestyn Hawliau' ac ar roi argymhellion y Pwyllgor ar waith. A allech chi esbonio beth yw ystyr 'cymorth ieuenctid' a sut mae hyn yn berthnasol i gylch gwaith y bwrdd o ran gwaith ieuenctid? A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y bobl a fydd ar y bwrdd a sut y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan yn ei waith ac yn llywio gwaith ieuenctid yn y dyfodol?
- Yn ystod yr ymchwiliad gan y Pwyllgor, clywyd y bu nifer o werthusiadau ac adolygiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â gwahanol elfennau o'r sector gwaith ieuenctid. Er bod gwerthusiadau cadarn ac adolygiadau amserol yn hanfodol wrth reswm, gallant greu pwysau ychwanegol hefyd. Felly, mae'n hanfodol bod pawb yn glir o ran diben gwerthusiadau o'r fath a bod dull gweithredu strategol i gydlynu'r gwaith ac i fwrw ymlaen â chanfyddiadau adolygiadau o'r fath.

– A allwch roi sicrwydd inni fod gan Lywodraeth Cymru ymagwedd strategol tuag at y gwahanol werthusiadau a'r gwahanol adolygiadau, y rhai a gwblhawyd a'r rhai sydd ar y gweill ar hyn o bryd?

Yn adroddiad y Pwyllgor gofynnwyd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sawl un o'i argymhellion erbyn diwedd Mehefin 2017, ac edrychwn ymlaen at dderbyn y wybodaeth maes o law.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb prydlon ar y mater hwn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon